
# System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

## Diweddariad Locum Hub Wales

Wedi inni dderbyn adborth gwerthfawr gan bractisiau a meddygon teulu locwm, byddwn yn rhyddhau swyddogaethau ychwanegol cyn bo hir yn Locum Hub Wales (LHW). Cyn bo hir, byddwch chi'n gallu gweld eich sifftiau wedi'u harddangos mewn fformat calendr a hysbysebu sawl sifft ar yr un pryd – budd gwirioneddol i'r practisiau hynny sy'n cyflogi meddygon teulu locwm rheolaidd ac sy'n dymuno defnyddio LHW i hysbysebu ac archebu'r sifftiau hyn. Bydd LHW hefyd yn lansio ffordd i gyhoeddi cyfleoedd y tu allan i oriau ac 111 ledled Cymru. Bydd hyn yn galluogi meddygon teulu locwm i weld ble mae sifftiau ar gael yn gyflym ac yn hawdd.



## Ffocws ar: Data Meddygon Locwm

Wedi inni glywed ei bod yn bosibl y bydd meddygon teulu locwm yn gymwys i gael y Taliad Bonws Covid, mae'n bwysicach nag erioed sicrhau bod data locwm eich practis yn cael eu diweddaru a'u bod yn gywir ar Locum Hub Wales. Cysonwch gofnodion eich practis â'r rhai a gofnodwyd gan y meddygon teulu locwm ar y wefan, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r amser y maent wedi gweithio yn eich practis yn gywir, yn unol â'r Canllawiau newydd ar GMPI a ryddhawyd ar 8 Rhagfyr 2020.

## Oeddech chi'n gwybod?

Sut bynnag y byddwch chi'n archebu'ch sifftiau meddygon teulu locwm, er mwyn elwa ar y Cynllun ar gyfer GMPI, mae'n rhaid i BOB sifft a weithir gan feddygon teulu sy'n dal contract locwm gael ei chofnodi yn Locum Hub Wales.

## Croeso gartref WNWRS

Mae'n bleser gennym gyhoeddi y bydd PCGC yn contractio'n uniongyrchol gydag Argyle, sef datblygwyr WNWRS, o Ebrill 2021. Nid oes newid i ddefnyddwyr mewn practisiau ac mae canllawiau llywodraethu data yn cael eu cynnwys yn nogfennau Asesu'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) ynghylch y newid hwn. Bydd hyn yn golygu bod gennym well rheolaeth a dylanwad ar y system, a fydd yn galluogi newid i Gymru mewn modd amserol a pherthnasol. Mae'r fersiwn Gymraeg o'r WNWRS bron yn barod i'w rhyddhau ac mae'n rhan o'r datblygiadau newydd cyffrous mewn Gofal Sylfaenol a fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod 2021.

Fel rhan o'r newid hwn i'r system, ac er mwyn cydymffurfio â phrotocolau cyfrineiriau newydd y GIG, bydd angen ichi ailosod eich cyfrinair WNWRS ar ryw adeg yn ystod y 4 wythnos nesaf. Bydd y system yn eich annog i wneud hyn pan fyddwch yn mewngofnodi, felly cadwch lygad am hyn.

**Syniadau ac Awgrymiadau**



### Mewnbynnu data

Gweler isod sut i fewnbynnu'ch data yn y fformat cywir

**Rhif Yswiriant Gwladol: LLRRRRRRL**

**Rhif y Cyngor Meddygol Cyffredinol: RRRRRRR**

**Rhif y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth: RRLRRRRL**

**L = Llythyren R = Rh Dim lleoedd gwag, os gwelwch yn dda!**

Cyhoeddwyd canllawiau wedi'u diweddaru ar drefniadau indemnio yn ymwneud â chlinigau brechu COVID-19 gan Dîm Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cliciwch yma i weld yr wybodaeth wedi'i diweddaru. Os oes gennych unrhyw ymholiadau indemnio yn ymwneud â brechiadau COVID-19, cysylltwch â'r tîm GMPI ar GMPI@wales.nhs.uk.



Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso ichi gysylltu â ni:

Ffôn: 01792 860489
E-bost: NWSSP.PrimaryCareWNWRS@Wales.nhs.uk

Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan: https://pcgc.gig.cymru